Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Datganiad Polisi Tâl Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025 yw hwn.

Pwrpas y Datganiad Polisi Tâl yma yw rhannu ein polisi ar amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â thâl a chydnabyddiaeth ariannol ein tîm o staff, ac yn arbennig tâl a chydnabyddiaeth ariannol y swyddi uwch a'r cyflogeion sy'n cael eu talu'r lleiaf. Mae'n esbonio'r berthynas rhwng y gydnabyddiaeth ariannol i'r staff sy'n cael eu talu'r mwyaf a'r lleiaf hefyd.

Mae'r Datganiad hwn yn berthnasol i holl gyflogeion Cyngor y Celfyddydau.

Mae'n cydategu gwybodaeth arall a gyhoeddwyd ar ein gwefan www.celf.cymru

Os na allwch chi ddod o hyd i'r wybodaeth berthnasol, cysylltwch â ni yn information@arts.wales

## Cyflwyniad ein Cadeirydd

Cyngor Celfyddydau Cymru yw'r corff cyhoeddus swyddogol sy'n ariannu ac yn hyrwyddo'r celfyddydau yng Nghymru. Rydyn ni'n gweithio i osod y celfyddydau wrth galon bywyd a lles y genedl, gan annog cynifer o bobl â phosibl i fwynhau'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt.

Fel corff cyhoeddus, mae cyfrifoldeb arnom i greu sefydliad cryf a hyderus sy'n darparu gwasanaethau sy'n berthnasol ac yn ddefnyddiol. Rydyn ni'n darparu gwasanaethau proffesiynol ar draws amrywiaeth o ddisgyblaethau. Rydyn ni'n gwneud hyn mewn ffyrdd sy'n lleihau costau ac yn cydnabod ein cyfrifoldeb i fod yn sefydliad mwy cynaliadwy yn amgylcheddol.

Mae'r cyhoedd yn mynnu, yn hollol briodol, bod y sefydliadau y maent yn eu hariannu yn effeithlon ac yn gost-effeithiol. Pob blwyddyn, mae ein cyfrifon blynyddol yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr am ein hamcanion sefydliadol, ein perfformiad a chydnabyddiaeth ariannol ein staff uwch.

Byddwn ni'n gwneud pob ymdrech i hybu tryloywder a bod agored ym mhopeth a wnawn. Un esiampl o'r ymrwymiad hwnnw ar waith yw'r Datganiad Polisi Tâl.

Maggie Russell
Cadeirydd

## Y fframwaith deddfwriaethol

Y cyd-destun cyffredinol
Mae Cyngor Celfyddydau Cymru'n atebol i Lywodraeth Cymru. Rydyn ni'n gweithio o fewn fframwaith sy'n gosod y sylfaen i Weinidogion Cymru ddarparu ein cymhorthdal grant, a sut y gallwn ni ddefnyddio'r cyllid yma. Mae disgwyl i ni reoli ein cronfeydd ag uniondeb ac er budd y cyhoedd, gan ddilyn yr egwyddorion a bennir yn *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.*

Fel sefydliad sy'n dosbarthu arian y Loteri o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993, rydyn ni'n atebol i Ysgrifennydd Gwladol Llywodraeth y DU ar faterion Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n darparu ein cyfarwyddyd ariannol, a daw ein Cyfarwyddyd Polisi gan Weinidogion Cymru. Mae'r rhain yn pennu sut y mae angen i ni weithredu mewn perthynas â gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri.

Fel elusen, rhaid i ni gydymffurfio â Deddfau Elusennau 1960, 2006 a 2011.

Deddfwriaeth cyflogaeth
Rydyn ni'n cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol o ran cyflogaeth wrth bennu tâl a chydnabyddiaeth ariannol ein holl gyflogeion. Mae hyn yn cynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010, Rheoliadau Cyflogaeth Ran-amser (Atal Triniaeth Lai Ffafriol) 2000, Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth 2010, a lle bo'n berthnasol, y Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Enillion).

Yn unol â'r gofynion o ran cyflogau cyfartal a bennir yn y Ddeddf Cydraddoldeb, mae Cyngor y Celfyddydau'n sicrhau nad oes yna unrhyw wahaniaethu ar sail tâl o fewn ei strwythurau tâl, a bod modd cyfiawnhau'r holl wahaniaethau mewn tâl yn wrthrychol trwy ein system Gwerthuso Swyddi.

## Gwneud Penderfyniadau

Gwneud penderfyniadau ar faterion sy'n ymwneud â thâl
Mae Pwyllgor AD a Chydnabyddiaeth Ariannol y Cyngor yn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau cyffredinol o ran tâl ac amodau gwasanaeth, a pholisïau ar gyfer recriwtio, cadw a rheoli staff.

Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol hefyd am bennu a monitro targedau perfformiad blynyddol y Prif Weithredwr, ac am gyflwyno argymhellion o ran cydnabyddiaeth ariannol flynyddol y Prif Weithredwr a'r Cadeirydd i'r Cyngor, a hynny'n amodol ar derfynau a chydsyniad Llywodraeth Cymru.

Gwerthuso Swyddi
Gellir cyflawni'r gwerthusiad cyn hysbysebu swydd neu yn ystod cyfnod cyflogaeth y gweithiwr os bydd newid materol i'r rôl o dan sylw.

Mae'r Cyngor yn gweithredu cynllun dadansoddi ffactorau ar sail pwyntiau. Mae'r system, a ddatblygwyd gyda chymorth ACAS, yn asesu'r gofynion, y cyfrifoldebau a'r cymwyseddau sydd eu hangen i gyflawni pob rôl o fewn y sefydliad mewn ffordd wrthrychol.

Mae rolau'n cael eu dadansoddi yn saith cydran o dan benawdau ffactor, ac yn cael sgôr pwyntiau gan banel gwerthuso hyfforddedig.

Dyma'r penawdau ffactor:
- Gwneud Penderfyniadau/Effaith;
- Creadigrwydd/Datblygu'r Busnes;
- Gwybodaeth/Sgiliau/Arbenigedd;
- Cyfathrebu/Perthnasau;
- Amgylchedd Gweithio;
- Rheoli Staff; a
- Rheoli Adnoddau (ac eithrio staff)

Y sgôr sy'n deillio o werthuso'r rôl fydd yn pennu gradd y rôl. Rhoddir band tâl i bob gradd. Mae'r **Atodiad** yn cynnwys manylion y graddau a'r bandiau cyflog.

## Y trefniadau cyffredinol o ran tâl

Tâl ac Amodau
Mae pob aelod o staff yn gweithredu o dan yr un amodau cyflogaeth. Mae hyn yn berthnasol i'r Prif Weithredwr hefyd, ond mae gan ddeiliad y swydd hon yr hawl i gael taliad blynyddol sy'n gysylltiedig â pherfformiad yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae rhagor o fanylion yn yr adran am Gydnabyddiaeth Ariannol Uwch-gyflogeion isod.

Pennir Tâl ac Amodau a Thelerau Gwasanaeth staff Cyngor Celfyddydau Cymru ar sail leol yn amodol ar gyfyngiadau'r Cytundeb Fframwaith a gymeradwywyd ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru.

Trafodir dyfarniadau tâl blynyddol yn lleol gydag UNITE. Wrth lunio ein Cylch Cyflogau, rhoddir ystyriaeth i ganllawiau tâl Llywodraeth Cymru.

Rydyn ni'n ystyried yr angen am recriwtio, cadw a chymell gweithwyr i'n galluogi ni i fodloni gofynion y Cyngor a'i ddymuniad i ddarparu gwasanaethau o safon uchel ar gyfer ein gwahanol randdeiliaid, gan gynnwys sector y celfyddydau, a'r cyhoedd yng Nghymru hefyd yn y pen draw.

Wrth bennu ein Cylch Cyflogau, mae angen i ni ystyried fforddiadwyedd a chynaliadwyedd. Daw ein cyllid o ddau brif ffynhonnell, sef Cymhorthdal Grant Llywodraeth Cymru, a Chronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Caiff y cyntaf o'r rhain ei bennu am flwyddyn


ymlaen llaw fel rheol, ond mae'r ail yn fwy cyfnewidiol, gan adlewyrchu lefel wythnosol a chymysgedd gwerthu gwahanol gynhyrchion y Loteri Genedlaethol.

Daeth dyfarniad tâl cytunedig o 5% i rym yn 2024/25, roedd hyn yn cynnwys y Prif Weithredwr. Roedd hyn yn gyson â Chyrff eraill sydd dan Nawdd Llywodraeth Cymru yn yr Adran Ddiwylliant. Cwblhawyd y dyfarniad tâl yng nghyflogres **Hydref 2024.**

Cydraddoldeb o ran Tâl

Ac eithrio un rôl oedd yn cael ei hariannu'n rhannol gan sefydliad allanol, mae deiliaid yr holl swyddi'n cael eu talu yn ôl y band cyflog a bennwyd ar gyfer eu swydd. Nid yw graddfeydd cyflog yn gwahaniaethu rhwng staff gwrywaidd a benywaidd.

Roedd y gymhareb o staff gwrywaidd a benywaidd ar 31 Mawrth 2025 yn anghytbwys, gyda dynion yn cynrychioli ychydig yn llai na thraean o'r gweithlu (30.34%). Gwelwyd cynnydd bach iawn mewn gweithwyr benywaidd (1%) o falans canrannol 2023/2024. Mae'r siart isod yn dangos y canrannau yn seiliedig ar nifer o 89.




Am fod Cyngor y Celfyddydau'n cyflogi llai na 250 aelod o staff, nid oes gofyn i ni adrodd ar y bwlch cyflogau rhwng y rhywiau. Ond, am ein bod ni'n gweithredu system tâl a graddau tryloyw sy'n berthnasol i'r holl staff (ac eithrio un rôl oedd yn cael ei hariannu gan sefydliad allanol), nid oes yna unrhyw wahaniaeth rhwng graddfeydd tâl cyflogeion gwrywaidd a benywaidd yn y graddau hyd at a chan gynnwys gradd E (Penaethiaid Adran/Rheolwyr Portffolio).

Ar 31 Mawrth 2025, roedd y Tîm Arwain Gweithredol yn cynnwys dau weithiwr benywaidd ar Radd F (Cyfarwyddwr) a'r Prif Weithredwr (Gradd J). Roedd yna un gweithiwr benywaidd ac un gwrywaidd ar Radd F nad oeddent yn aelodau o'r Tîm Arwain Gweithredol hefyd.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y cyflogeion cyfwerth ag amser llawn (FTE) ar bob graddfa o fewn Cyngor Celfyddydau Cymru ar 31 Mawrth 2025:

| Gradd | Benywaidd (FTE) | Gwrywaidd (FTE) | Cyfanswm (FTE) | Cyflog cyfartalog benywod (£) | Cyflog cyfartalog gwrywod (£) | Gwahaniaeth (£) | % Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | |
| B | 14.40 | 3.6 | 18 | 30,471 | 30,584 | -113 | 0.37% |
| C | 9.55 | 3 | 12.55 | 38,821 | 39,032 | -211 | 0.542% |
| D | 19.7 | 12 | 36.6 | 49,853 | 50,068 | 215 | 0.43% |
| E | 9.5 | 5 | 14.5 | 61,707 | 61,739 | 32 | 0.05% |
| F | 3 | 1 | 4 | 86,800 | 82,556 | 4,244 | 5% |
| J (Prif Weithredwr) | 0 | 1 | 1 | 0 | 112,268 | 0 | 0.0% |

Ac eithrio yn achos Gradd F, mae'r siart uchod yn dangos bod y cyflog cyfartalog i weithwyr benywaidd ychydig bach yn is o fewn pob gradd o gymharu â staff gwrywaidd yng Nghyngor Celfyddydau Cymru.

Mae yna anomaledd o fewn ein nifer o ran cyflog un unigolyn (1 FTE) am fod y rôl yn cael ei hariannu'n allanol. Mae cyflog y rôl o dan sylw yn sefyll rhwng gradd D a gradd E. Nid yw'r unigolyn o dan sylw yn gynwysedig yn y ffigurau uchod am eu bod yn sefyll y tu hwnt i'n graddfeydd cyflog.

Gellir priodoli'r gwahaniaeth o ran % i aelodau o staff yn ymuno â Chyngor y Celfyddydau ar waelod y Raddfa, fel y trafodir isod.

<u>Datblygiad trwy'r raddfa gyflogau</u>
Gwneir penodiadau ar waelod y raddfa berthnasol fel rheol. Ond gellir amrywio hyn lle bo angen er mwyn sicrhau'r ymgeisydd gorau â'r sgiliau a'r cymwyseddau angenrheidiol i gyflawni'r swydd. Yn achos dyrchafiadau mewnol, bydd y cyflog cychwynnol ar bwynt priodol ar y raddfa newydd sy'n cynyddu tâl y cyflogai.

Yn amodol ar berfformiad boddhaol, telir cynyddrannau o fewn y band cyflog ar 1 Awst pob blwyddyn nes cyrraedd pwynt brig y band. Ni fydd aelodau o staff nad ydynt wedi cwblhau eu cyfnod prawf – sef cyfnod o 6 mis fel rheol, oni bai ei fod yn cael ei ymestyn – ar 1 Awst yn derbyn cynyddran tan y flwyddyn ganlynol.

<u>Y Cadeirydd ac aelodau'r Cyngor</u>
Llywodraeth Cymru sy'n penodi'r Cadeirydd yn dilyn proses benodi gyhoeddus agored. Cychwynnodd y Cadeirydd cyfredol, Maggie Russell, ei swydd ar 1 Ebrill 2023.

Gyda chydsyniad y Comisiwn Elusennau, mae'r Cadeirydd yn derbyn cydnabyddiaeth ariannol ar gyfradd sy'n cael ei phennu gan Lywodraeth Cymru sy'n adlewyrchu isafswm o ymrwymiad amser i fusnes y Cyngor. Mae Llywodraeth Cymru'n cynghori ar y cynnydd blynyddol yng nghyflog y Cadeirydd hefyd, ond nid yw'r Cadeirydd yn derbyn unrhyw daliadau bonws ac nid yw'n aelod o'r cynllun pensiwn.

Nid yw Aelodau eraill y Cyngor a'r Pwyllgorau'n derbyn unrhyw dâl am eu gwasanaeth, ond maen nhw'n derbyn ad-daliad am unrhyw dreuliau sy'n berthnasol i'w dyletswyddau. Cyhoeddir y manylion yn ein Hadroddiadau a'n Datganiadau Ariannol (y cyfrifon sy'n cael eu harchwilio).

Trefniadau pensiwn

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru'n cynnig dau gynllun pensiwn ar hyn o bryd.

Mae'r Cyngor yn gyflogwr cymeradwy o dan Gynllun Ymddeoliad Cyngor y Celfyddydau 1994 (ACRP). Mae'r cynllun pensiwn yn cynnig buddion diffiniedig i gyflogeion Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae'r gronfa'n gynllun buddion diffiniedig aml-gyflogwr, felly ni all y Cyngor glustnodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Mae cost cyfraniadau'r Cyngor yn cael ei chodi trwy ein cyfrifon er mwyn lledu cost pensiynau dros oes gwaith y cyflogeion.

Mae'r Cyngor wedi cyflwyno cynllun cyfraniadau diffiniedig, Pensiwn y Bobl, a ddaeth i rym ar 1 Mai 2014, fel opsiwn arall i fodloni gofynion y ddeddfwriaeth Ymrestru Awtomatig.

Taliadau Terfynu Cyflogaeth

Caiff unrhyw daliad a wneir mewn perthynas â therfynu cyflogaeth trwy ymddiswyddiad, dileu swyddi neu ymddeoliad, ei wneud yn gyson â pholisi perthnasol Cyngor Celfyddydau Cymru. Ni thelir unrhyw fonws ar ddiwedd y contract.

Lle bo gweithiwr ar unrhyw raddfa gyflog yn ymddiswyddo, bydd disgwyl iddynt weithio cyfnod o rybudd sy'n gyson â'u datganiad ysgrifenedig o amodau a thelerau fel rheol. Y cyfnod rhybudd ar gyfer staff ar radd A a B yw 8 wythnos, 13 wythnos yw'r cyfnod ar gyfer pob gradd arall hyd radd F  oni bai bod y gweithwyr yn dal i fod dan gyfnod prawf, os felly, 4 wythnos yw hi. Gofynnir i'r Prif Weithredwr roi 26 wythnos o rybudd.

Os yw gweithwyr wedi cael dyddiad dechrau swydd newydd sydd y tu hwnt i'r amserlenni uchod, mae yna ddisgresiwn i'w ryddhau yn gynt. Cyflawnir cyfweliad ymadael cyn y dyddiad ymadael.

Rhaid ad-dalu unrhyw gronfeydd arian parod neu flaendaliadau cyflog i brynu tocyn tymor neu at ddibenion eraill cyn ymadael, a rhaid dychwelyd unrhyw offer.

Os bydd sefyllfa'n codi lle gallai fod angen dileu swyddi staff, dilynir y Polisi Diswyddo.

Y Cyflogeion sy’n Cael eu Talu’r Lleiaf
Nid oes unrhyw aelodau o staff gennym ar Radd A. Felly'r aelodau o staff llawn-amser sy’n ennill y lleiaf yng Nghyngor Celfyddydau Cymru yw’r rhai a gyflogir ar Radd B. Rydyn ni’n diffinio llawn-amser fel 37 awr yr wythnos. Mae’r holl staff sydd yng nghyflogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru’n ennill cyflog sy’n uwch na’r Cyflog Cenedlaethol a’r Cyflog Byw. Bwriad Cyngor y Celfyddydau yw parhau â’r dull yma o weithredu.

Perthynoledd tâl
Y prosesau a ddefnyddir i bennu strwythurau tâl a graddau a bennwyd eisoes yn y datganiad polisi hwn sy’n pennu’r berthynas rhwng y cyfraddau tâl ar gyfer y swyddi sy’n derbyn y tâl isaf a’r swyddi uchaf.

Ar 31 Mawrth 2025, roedd yr aelod o’r staff sy’n ennill y mwyaf yn ennill £112,268 a’r lleiaf, ar radd B, yn ennill £27,591 (cyfwerth ag amser llawn). Mae hyn yn golygu cymhareb o 1:4.

Rydyn ni’n cyhoeddi manylion y canlynol yn ein cyfrifon blynyddol yn unol â’n gofynion adrodd ariannol:

- y newid canrannol yng nghydnabyddiaeth ariannol y cyflogai sy’n ennill y mwyaf a’r staff yn gyffredinol. Dyma’r newidiadau yn hynny o beth: Prif Weithredwr 5%; staff 5%.
- tâl y cyflogeion ar y 25ain ganradd, y canolrif a’r 75ain ganradd, a’r gymhareb rhwng pob un o’r rhain a thâl y cyflogai a delir y mwyaf. Y cymarebau oedd: 25ain ganradd 1:3:2, canolrif 1:2:2, 75ain ganradd 1:2.2.

Trefniadau oddi ar y gyflogres
Disgrifir pob achos o drefniadau oddi ar y gyflogres yn ein Hadroddiadau a’n Datganiadau Ariannol sy’n cael eu cyhoeddi (ac sy’n cael eu harchwilio).

## Cydnabyddiaeth ariannol staff uwch

Cafodd yr Uwch Dîm Arwain ei ailstrwythuro yn 2024, gan gynnwys newid ei enw i’r ‘Tîm Arwain Gweithredol’, o Ebrill 2024 ymlaen. Mae’r Tîm Arwain Gweithredol yn cynnwys y canlynol:

- Y Prif Weithredwr
- Cyfarwyddwr y Celfyddydau
- Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Busnes a Chyllid

At ddibenion y datganiad hwn, mae swyddi uwch yn cyfeirio at aelodau Tîm Arwain Gweithredol Cyngor y Celfyddydau.

Rôl y Prif Weithredwr

Penodiad llawn-amser a pharhaol yw rôl y Prif Weithredwr, sy’n gofyn am gydsyniad Llywodraeth Cymru. Mae deiliad y swydd yn cael ei ddewis ar sail teilyngdod yn erbyn meini prawf gwrthrychol yn dilyn hysbyseb cyhoeddus.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dynodi mai’r Prif Weithredwr yw Swyddog Cyfrifo Cyngor y Celfyddydau hefyd. Cyfrifoldeb personol yw hwn ac mae’n cynnwys:

- priodoldeb a rheoleidd-dra’r cronfeydd cyhoeddus y maent yn atebol amdanynt;
- cadw cyfrifon priodol;
- gweinyddiaeth ddarbodus ac economaidd;
- atal gwastraff ac afradlonrwydd;
- defnydd effeithlon ac effeithiol o’r holl adnoddau sydd yn eu gofal.

Ymunodd ein Prif Weithredwr, Dafydd Rhys, â Chyngor Celfyddydau Cymru ym mis Hydref 2022.

<u>Cyflog y Prif Weithredwr</u>

Mae Llywodraeth Cymru’n cydsynio i delerau penodi’r Prif Weithredwr. Penodiad llawn-amser a pharhaol yw’r rôl hon. Mae’r gydnabyddiaeth ariannol yn cynnwys cyflog sylfaenol a’r cymhwyster i dderbyn taliad bonws blynyddol. Nid yw’r cyflog yn gynyddrannol ac mae’r swm a bennir yn sefydlog. Cyflog cyfredol y rôl yw £112,268 y flwyddyn.

Mae’r Pwyllgor AD a Chydnabyddiaeth Ariannol yn gallu argymell taliadau bonws anghyfunol blynyddol i’r Cyngor ar sail perfformiad y Prif Weithredwr yn erbyn set o amcanion a bennir ymlaen llaw.

Ers Tachwedd 2024, mae’r Prif Weithredwr wedi derbyn taliad misol net o £820 fel lwfans teithio. Swyddfa Caerfyrddin yw ei leoliad gwaith contractiol, ond o dan reolau CThEF, mae swyddfa Caerdydd yn cael ei thrin fel lleoliad gwaith parhaol eilaidd am ei fod yn gorfod teithio yno mor aml. Codir treth ar unrhyw gostau teithio sy’n cael eu hawlio i fynd i swyddfa Caerdydd felly. Nid yw’r Cyngor yn gweithredu cynllun treth Buddion mewn Da, ac mae’r lwfans teithio misol yn sicrhau bod y swm priodol o dreth yn cael ei dalu ar gyfer costau teithio i Gaerdydd.

Mae’r holl gostau am deithio i fannau eraill yn parhau i gael eu talu yn unol â Pholisi Teithio a Chynhaliaeth y Cyngor.

Cyhoeddir manylion pellach am dâl y Prif Weithredwr, gan gynnwys unrhyw daliadau ychwanegol, yn yr *Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff* sydd yn ein Datganiadau Ariannol cyhoeddedig (mae’r cyfrifon yn cael eu harchwilio).

Roedd y Prif Weithredwr yn aelod o gynllun pensiwn y sefydliad – *Cynllun Ymddeoliad Cyngor y Celfyddydau 1994* – a datgelir y manylion yn yr adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol. Ni chafwyd unrhyw gynnydd na thaliadau ymchwydd i’r cynllun pensiwn, nac i hawl y Prif Weithredwr i bensiwn, y tu hwnt i’r trefniadau safonol.

Y cyfnod rhybudd ar gyfer y rôl yw 26 wythnos.

Y Cyfarwyddwyr

Mae'r Cyfarwyddwyr oll wedi eu cyflogi ar gontractau parhaol o dan amodau a thelerau safonol y Cyngor. Mae hawl ganddynt i 13 wythnos o rybudd cyn terfynu eu cyflogaeth. Pennir y buddion o ran cydnabyddiaeth ariannol a phensiynau ar gyfer y Tîm Arwain Gweithredol yn ein Hadroddiadau a'n Datganiadau Ariannol cyhoeddedig (sy'n cael eu harchwilio).

Roedd tri Chyfarwyddwr gan Gyngor y Celfyddydau yn 2024/25:

- Cyfarwyddwr y Celfyddydau
- Y Cyfarwyddwr Ymgysylltu â'r Celfyddydau
- Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Busnes a Chyllid

Ar 31 Mawrth 2025, roedd dau o'r tri chyfarwyddwr wedi cyrraedd brig band cyflog F – sef £88,922.00. Roedd pob aelod o'r Tîm Arwain Gweithredol yn aelodau sy'n cyfrannu'n weithredol at Gynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau.

Rhoddir manylion enillion a buddion pensiwn yr Uwch Dîm Rheoli, a'r Cadeirydd, yn ein Hadroddiadau a Datganiadau Ariannol cyhoeddedig (sy'n cael eu harchwilio).

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru'n cydnabod pwysigrwydd helpu ei gyflogeion i gydbwyso bywyd gwaith a'r cartref trwy amrywiaeth o bolisïau sy'n cynnig trefniadau gweithio hyblyg. Mae'r rhain yn caniatáu i staff gydbwyso eu bywyd gwaith â blaenoriaethau eraill, gan gynnwys cyfrifoldebau fel rhieni a chyfrifoldebau gofalu eraill, dysgu gydol oes, gwaith elusennol, gweithgareddau hamdden a diddordebau eraill.

Yn ei dro, mae'n cydnabod hefyd bod angen i'r sefydliad sicrhau bod y lefelau staffio'n cyd-fynd â gofynion y busnes bob amser. Mae'r polisïau hyn yn adlewyrchu'r newidiadau deddfwriaethol a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2024 (Deddf Gweithio Hyblyg, 2023). Rhaid cael cydsyniad y Tîm Arwain Gweithredol ar gyfer pob cais sy'n dod i law o dan y polisïau hyn.

## Cynllunio olyniaeth

Mae Cyngor y Celfyddydau'n gweithredu polisi Dysgu a Datblygu, a ddatblygwyd i gyd-fynd â gweledigaeth a strategaeth gyffredinol y sefydliad, sy'n adlewyrchu cred yn yr angen am ddatblygu pob aelod o staff parhaol a dros dro, sydd mewn swyddi ar bob lefel, boed mewn cyflogaeth lawn-amser neu ran-amser.

## Rheoli Perfformiad

Mae cydnabyddiaeth ariannol y Prif Weithredwr yn cynnwys cyflog sylfaenol plws cymhwyster i dderbyn bonws blynyddol. Y Pwyllgor AD a Chydnabyddiaeth Ariannol sy'n argymell taliadau bonws blynyddol i'r Cyngor gan ystyried perfformiad y Prif Weithredwr yn erbyn set o amcanion a bennir ymlaen llaw.

Ar gyfer gweddill y staff, gan gynnwys y rhai sydd mewn swyddi â thâl is, mae gan y sefydliad ei raddfa gyflogau ei hun ar gyfer Graddau A i F.

Ac eithrio un cyflogai y cafodd ei gyflog ei ariannu gan sefydliad allanol, mae'r holl gyflogeion ar y strwythur tâl yma. Cyhoeddir manylion y radd a'r raddfa gyflogau gyda datganiad o'r prif amodau a thelerau ac o fewn y contractau cyflogaeth. Cyhoeddir y manylion y pwyntiau tâl uchaf ac isaf yn ein Hadroddiadau a'n Datganiadau Ariannol (sy'n cael eu harchwilio).

Pob blwyddyn, bydd pob aelod o staff yn cyfarfod â'u rheolwr llinell i drafod a chytuno ar gynllun gwaith unigol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Mae gofyn hefyd i bob aelod o staff gymryd rhan mewn cyfarfod adolygu blynyddol gyda'u rheolwr llinell i drafod agweddau ar eu perfformiad yn y gwaith, a chynhelir adolygiadau rheolaidd fesul un trwy gydol y flwyddyn. Amcan y cyfarfod adolygu blynyddol yw adolygu cyflawniadau'r flwyddyn flaenorol, a thrafod unrhyw ddysg a datblygiad a chynllunio gyrfaol sy'n berthnasol i'r unigolyn a'r sefydliad.

Mae perfformiad yn cael ei reoli trwy gydol y flwyddyn mewn cyfarfodydd fesul un rhwng aelodau staff a'u rheolwyr llinell. Yn ystod y cyfarfodydd hyn, mae cynnydd tuag at amcanion y cynllun gwaith yn cael eu hadolygu, a rhoddir camau adeiladol ar waith i helpu cyflogeion unigol i wella eu perfformiad os oes angen.

Atodiad

Graddau a graddfeydd cyflog - Ebrill 2024 i Fawrth 2025

| Gradd | | 01-Ebr-24 |
|---|---|---|
| A1 | Prentis | 24,152 |
| B1 | CP/Cydlynydd Tîm | 27,591 |
| B2 | | 29,225 |
| B3 | | 30,856 |
| C1 | Swyddog | 34,561 |
| C2 | | 37,242 |
| C3 | | 39,927 |
| D1 | Rheolwr/Swyddog Uwch | 44,718 |
| D2 | | 47,487 |
| D3 | | 50,254 |
| E1 | Pennaeth/Rheolwr Portffolio | 56,286 |
| E2 | | 59,316 |
| E3 | | 62,345 |
| F1 | Cyfarwyddwr | 69,827 |
| F2 | | 76,190 |
| F3 | | 82,556 |
| F4 | | 88,922 |
| J1 | Prif Weithredwr | 112,268 |
| K1 | Cadeirydd | 43,810 |